CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 20fed o FAI 2024** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

YN BRESENNOL :
Cyng. Terry Jones - Cadeirydd

Cyng. R. Alwyn Parry
Cyng. Margaret Thomas
Cyng. Victor Hughes
Cyng. Ieuan G. Davies
Cyng. Richard Parry.
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Gwenan Ll. Evans
Cyng. Non W. Parry
Cyng. J. Egryn Lewis

HEFYD YN BRESENNOL :
Cynghorydd Sir : Dylan W. Rees, Nicola Roberts, Geraint Bebb, Non Dafydd
Clerc : H. Rhys Parry
Cymhorthydd : Ms. Linda Powell

Cyfarfod yn cael ei Recordio

Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod.

Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'w Gyfarfod cyntaf yn ei swydd fel Maer y Dref

24/033 Ymddiheuriadau : Cyng. Arwel Môn Hughes, Cyng. Henry D. Jones, Cyng. John Lee, Cyng. Eleri Lloyd Burns, Cyng. Christine Roberts.

24/034 Datganiad o Ddiddordeb : Dim

24/035 Heddlu Gogledd Cymru : Dim Cynrychiolydd
Dim Materion newydd i'w hadrodd.

24/036 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 15.04.2024 :
Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. J. Huw Owen yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

24/037 1 I Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 15.04.2024 :
Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod dim cyfathrebu trwy'r Swyddfa.

24/038 Cynllunio :
I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 15.04.2024
PENDERFYNWYD derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

24/039 1 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebion y Maer : Cadeirydd yn adrodd, oherwydd ei fod newydd gychwyn ei dymor yn y Swydd fel Maer y Dref, nid ydyw wedi mynychu unrhyw achlysur.

24/040 Materion yn Codi gan Aelodau :

1 **Cyng. J. Egryn Lewis : Cyfarfod Blynyddol 13.05.2024 - Datganiad Derbyn Swydd y Maer a Dirprwy Faer :** Cyng. Lewis yn dwyn sylw nad oedd yr Aelodau enwebedig i'r Swyddi uchod wedi darllen y Datganiad, dim ond ei arwyddo. Cyng. Lewis yn awyddus mynd yn ôl i'r drefn, fel yn y blynyddoedd blaenorol, fod y Datganiad yn cael ei ddarllen a'i arwyddo yn y Cyfarfod Blynyddol. Clerc yn adrodd mai goruchwyliaeth oedd hyn ac nid newid y drefn. Yn dilyn trafodaeth fer, Cyng. Lewis yn Cynnig a Cyng. Victor Hughes yn Eilio, ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol 2025 ac i'r dyfodol, fod y Datganiad yn cael ei ddarllen allan a'i harwyddo yn y Cyfarfod Blynyddol. **PENDERFYNWYD** derbyn y cynnig uchod.

24/041 Adroddiad y Clerc
Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:

1 **Capel Fynwent Lon Newydd :** Er gwybodaeth, Contractwr yn gosod y sgaffaldiau tu fewn i'r Capel ar 28ain o Fai 2024 yn barod i gychwyn y gwaith ar y nenfwd dechrau Mis Mehefin. Cyng. Egryn Lewis dwyn sylw dylid sicrhau fod dim offer g waith yn cael eu gadael tu allan i'r Capel yn ystod y cyfnod yma rhag ofn fandaliaeth. Bydd y Clerc yn anfon y neges yma ymlaen i'r Tirmon. **Derbyn**

2 **Cae Criced :** Cyfreithiwr wedi cadarnhau fod y Cae Criced erbyn hyn o dan berchnogaeth y Cyngor Tref a bod y Ddogfen Trosglwyddo Derfynol yn y broses o gael ei chofrestru yn y Gofrestrfa Tir. Bydd trafodaeth bellach yng Nghyfarfod nesaf Pwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae 17.06.2024. **Derbyn**

3 **Difrod : Y Llys :** Yn dilyn difrod a fandaliaeth i saith o ffenestri llawr uchaf Y Llys, bu rhaid gwneud gwaith brys i ddiogelu'r adeilad. Trefnwyd i Gwmni lleol osod rhwydwaith tu allan i'r ffenestri a Gwydrwr i ail-osod gwydrau newydd. Cost annisgwyl ac ychwanegol i'r Cyngor Tref. Adroddwyd y difrod a'r fandaliaeth yn syth i'r Heddlu a Rhif y Digwyddiad wedi ei gofnodi ar gyfer hawliad Yswiriant.
Cyng. Huw Owen yn holi os oes unrhyw gyswllt wedi bod gyda pherchenogion newydd Capel Smyrna a pherchennog y tir yn rhedeg rhwng y ddau adeilad yn dilyn torri'r coed tu cefn i'r Capel. Clerc yn ymateb fod ganddo ddim gwybodaeth am berchnogaeth y Capel ac wedi methu cysylltu â pherchennog y tir arall. Dim trafodaeth bellach. **Derbyn**

4 **Cwmni Yswiriant :** Cynrychiolydd o Gwmni Yswiriant wedi ymweld â'r Swyddfa i drafod adnewyddu'r Polisi eleni. Bu o gwmpas asedau'r Cyngor Tref ac yn y broses o baratoi Amserlen Gwaith. Yn y cyfamser, adroddwyd difrod i ffenestri'r Llys i'r Cynrychiolydd a chynghorodd anfon Anfonebau unrhyw wariant ato, i'w prosesu trwy'r Cwmni. Cyng. J. Egryn Lewis yn diolch am y wybodaeth a bu dim trafodaeth bellach. **Derbyn**

5 **Cyfarfod gyda Swyddogion Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ynys Môn - 20.05.2024 :** Diweddariad gan y Swyddogion fod gwaith ar y gweill i dacluso a gosod bolardiau newydd o gwmpas y dref. Hefyd wedi gofyn iddynt a oes modd cael unrhyw gyfraniad tuag at Flodau i'r dref.
Er gwybodaeth - Oherwydd bod llawer o gwynion wedi eu derbyn gan gerddwyr wedi llithro ar y palmentydd briciau coch yn ystod cyfnod y Gaeaf, bydd y rhain yn cael eu codi a'i ail-wynebu gyda tharmac yn ystod y misoedd nesaf.

6 **Maes Chwarae, Rhosmeirch :** Er gwybodaeth - Cwmni "Sportfix of Wales" wedi cwblhau'r gwaith trwsio heblaw am ddwy eitem fach yn rhagorol. Clerc yn rhannu lluniau o'r offer chwarae gyda'r Aelodau. **Derbyn**

24/042 Adroddiadau Pwyllgorau Allanol :

1 **Cyfarfod Pump Tref - Trefi Môn 25.04.2024 :** Crynhodd y Cadeirydd ar y cyfarfod a chyfeirio'r Aelodau at yr Adroddiad Arolwg Canol Tref 2024 Ynys Mon, a atodwyd ym Mhecyn y Rhaglen Llawn. Dim trafodaeth bellach ar hyn.

PARHAD 24/024

Ffermydd Solar : Clerc yn adrodd, ar ddiwedd Cyfarfod y Pump Tref uchod, bu datganiad ar lafar, gan Cyng. G. Winston Roberts, Cadeirydd Cyngor Tref Amlwch, fod cynlluniau cyfnod-cynnar ar gyfer datblygu Ffermydd Solar enfawr yn yr ardal yma mewn lle. Cyng. Winston Roberts yn pryderu am faint y Ffermydd a'r effaith ar y tir amaethyddol, ac yn gofyn i'r Cynghorau Tref o fewn y Grŵp Pump Tref fod yn gefnogol ac anfon llythyr at Gyngor Sir Ynys Mon i wrthwynebu'r datblygiadau. Clerc yn awyddus i gael barn yr Aelodau cyn bod unrhyw lythyr yn cael ei anfon o Gyngor Tref Llangefni. Cyn ymateb, Clerc yn atgoffa'r Aelodau, mai i'r dyfodol, efallai bydd caeau tir Penlan yn cael eu hystyried ar gyfer Paneli Solar gydag incwm sylweddol i'r Cyngor Tref. Cyng. Richard Parry yn ymateb buasai yn rhesymol iawn defnyddio erwau o dir Penlan ar gyfer prosiect fel hyn.

Yn dilyn trafodaeth, bu adwaith cymysg a mewnbwn gan yr Aelodau, fel a ganlyn :

- Afresymol i ddefnyddio cannoedd o erwau tir amaethyddol cefn gwlad;
- Ystyried Ymgynghoriad Cyhoeddus;
- Edrych ar ddefnyddio Meysydd Parcio ar gyfer Paneli Solar;
- Effaith o golli tir amaethyddol safonol ar Amaethwyr;
- Llawer o gwestiynau ddim wedi eu hateb;

Cytunwyd, i fod yn gefnogol i egwyddor y cais ond nid i faint o'r Paneli Solar ar dir amaethyddol.

PENDERFYNWYD anfon llythyr at Gyngor Sir Ynys Mon i gefnogi cais Cyngor Tref Amlwch ar ran y Pump Tref.

2 **Grŵp Adfywio Llangefni - 23.04.2024 :** Dogfen Rhaglen Waith - Blaenoriaethau 2024-2025 wedi ei atodi i Becyn y Rhaglen Llawn - er gwybodaeth i'r Aelodau. Dim trafodaeth bellach.

24/043 Cyllid :

1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Ebrill 2024 :** Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod i archwilio'r Anfonebau. Clerc yn esbonio'r canlynol :

Treth Cerbyd y Cyngor : Taliad o £335.00 wedi ei dalu ar 16.05.2024 ddim wedi ei gynnwys ar y Fantolen Ariannol ac mai goruchwyliaeth oedd hyn. Eglurwyd fod y Nodyn Atgoffa Treth Cerbyd yn dangos taliad o £320.00 yn ddyledus a bod datganiad ar waelod y ffurflen yn cadarnhau bydd newidiadau i gyfraddau yn berthnasol ar gyfer treth sy'n dechrau o 1 Ebrill 2024 ymlaen. Bydd y cyfraddau cywir yn cael eu dangos pan fydd y cais yn cael ei wneud. Dim trafodaeth bellach.

Cadeirydd a'r Clerc yn cadarnhau i Cyng. Lewis fod logos magnetic y Cyngor Tref yn cael eu gosod ar gerbyd y Cyngor ac yn cael eu tynnu i ffwrdd yn y nos. Dim trafodaeth bellach.

Treth Clwb Bowlio : Clerc wedi holi yn y gorffennol ac am ddilyn i fynnu ar gyfer gneud cais i gael rhyddhad ardrethi ar y lleoliad yma. Dim trafodaeth bellach . **Derbyn**

Yn dilyn yr uchod, Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Richard Parry yn Eilio i dderbyn y Fantolen Ariannol uchod. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mis Ebrill 2024.

24/044 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :

1 **Cynghorydd Sir yn adrodd ar y canlynol :**

- Cyng.Non Dafydd yn cyfeirio at e-bost "Effaith Newid Cyfyngiadau Cyflymder 20mya yn Eich Ardal" ac yn gofyn am adborth;
- Rhaglen Gwaith ar gyfer gwelliannau i drin wynebau priffyrdd a phalmentydd;
- 22.05.2024 - Ymgynghoriad ar y Drafft Terfynol o'r Cytundeb Cyflawni ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd wedi cychwyn;
- 21.05.2024 – Cyfarfod Blynyddol i ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd;
- Prosiectau wedi sicrhau cyllid gwerth dros £2 filiwn gyda M-SPARC wedi bod yn llwyddiannus : Cais i gadw pobl ifanc yn ein hardal a chymorth i ddychwelyd a'r ardal;

PARHAD 24/044

Prosiect Plannu Coed : Cyng. Nicola Roberts yn datgan bod coed ar gael trwy Fudiad Lleol i'w plannu o fewn y Gymuned. Cyng. Roberts yn awgrymu gweithio ar y cyd gyda'r Cyngor Tref i edrych ar leoliadau ar gyfer plannu'r coed. Aelodau yn cytuno i symud ymlaen ar hyn. **PENDERFYNWYD** cynnwys Eitem ar Raglen nesaf o Bwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae 17.06.2024 i drafod ymhellach.

24/045 Gohebiaeth a Materion Newydd :

1 **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig - Digwyddiad Gwybodaeth 12.06.2024 :** Cadeirydd yn adrodd fod Gwahoddiad i'r Aelodau i gyd. Unrhyw un a diddordeb mynychu, i anfon eu henwau i Linda yn y Swyddfa.

2 **Cylchlythyr y Pwyllgor Safonau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned -** Dogfen wedi ei atodi i Becyn y Rhaglen Llawn, er gwybodaeth i'r Aelodau. Clerc yn cadarnhau fod y Pwyllgor Safonau wedi derbyn Cynllun Hyfforddi'r Cyngor Tref. Clerc yn atgoffa'r Aelodau i edrych ar ymgymryd hyfforddiant ac yn adrodd nad oes unrhyw enwau at rŵan wedi dod ymlaen i'r Swyddfa. Dim trafodaeth bellach.

24/046 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :
Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Ebrill 2024 :

1 **Un Llais Cymru : Derbyn**
2 **Materion Eraill : Derbyn**

24/047 I Ystyried Unrhyw Fater Brys Gan y Cadeirydd : Dim

24/048 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf : Nos Lun 10fed o Fehefin 2024

Cyng. Terry Jones
CADEIRYDD